

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Llanedeyrn,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro

Dyddiad arolygu: 23 Mai 2019

Dyddiad cyhoeddi: 26 Awst 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	25
4.	Beth nesaf?	29
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	31
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	32
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	33
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	34

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Llanedeyrn yn 69 Ael-y-Bryn, Llanedeyrn, Caerdydd, CF23 9LL, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 23 Mai 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC gan gynnwys un arolygydd arweiniol ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r holl Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y perchenogion presennol wedi prynu'r practis yn ddiweddar ac ar ôl siarad â nhw, mae'n amlwg eu bod yn awyddus i ddatblygu a gwella'r practis.

Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, ond nid oeddent wedi'u dyddio na'u rhifo o ran fersiwn nac yn cynnwys dyddiad adolygu ac, yn y mwyafrif o achosion, nid oeddent yn cynnwys llofnod staff i ddangos eu bod wedi cael eu darllen a'u deall.

Mae angen i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei hyfforddi'n briodol a bod tystiolaeth o'r hyfforddiant hwn yn cael ei chynnwys mewn ffeil.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y practis yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cyfeillgar sy'n hawdd mynd ato i'w gleifion.
- Rhoddodd y cleifion ymatebion cadarnhaol i holiadur AGIC.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu ac ail-ysgrifennu polisiâu a gweithdrefnau fel y bo'r angen, a'u cyfleu i'r staff.
- Darparu hyfforddiant i bob aelod o'r staff yn ôl yr angen a dylai tystiolaeth o'r hyfforddiant hwn gael ei chynnal ar fatrics hyfforddiant.
- Cyflwyno rhaglen o archwiliadau clinigol ac ansawdd.
- Darparu mwy o wybodaeth i gleifion yn ardal y dderbynfa.
- Cwblhau cofnodion clinigol cleifion fel sy'n ofynnol gan y canllawiau clinigol.

- Darparu trefniadau mwy cadarn o reoli'r practis yn y dyfodol.

Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad C. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r person cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, gallai methu â gwneud hynny arwain at beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Llanedeyrn yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llanedeyrn yng Nghaerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, pum nyrs, un hylenydd, dau dderbynnydd a rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Cafodd y practis ei werthu i'r perchenogion presennol ar 1 Chwefror 2019 a gwnaethant gyflwyno cais i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ar 24 Chwefror 2019. Mae'r cais wrthi'n cael ei brosesu gan AGIC.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (Ile'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y staff yn y practis deintyddol yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd yr awyrgylch yn groesawgar, a gwnaeth y staff ymdrech i wneud i'r cleifion ymlacio a theimlo'n gartrefol o'r eiliad yr oeddent yn cyrraedd.

Roedd angen gwneud mwy o welliannau i sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael ac sy'n cael ei rhoi i'r cleifion yn y dderbynfa ac yn ystod eu triniaeth, yn gyflawn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 35 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron mae'r canlynol:

"Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol iawn. Hapus iawn â'r gofal rydw i a'm teulu yn ei gael"

"Deintyddfa ragorol, gwasanaeth o'r radd flaenaf a staff rhagorol"

"Ni allech wella'r practis, mae wedi bod yn ardderchog, a bydd yn parhau i fod yn ardderchog yn fy marn i. Mae'r proffesiynoldeb a'r gwasanaeth gan y staff yn rhagorol"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd sylwadau gan y cleifion yn cynnwys:

"Mae'r gwasanaeth yn wych, ond efallai y byddai'n ddefnyddiol gweld hysbysiad/arwydd yn nodi amcangyfrifon costau ar gyfer triniaethau.

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrtho sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach.

Gwelsom fod detholiad bach o wybodaeth ar gael i'r cleifion gan gynnwys taflen ar roi'r gorau i smygu. Rydym yn argymhell y dylid sicrhau bod gwybodaeth hyrwyddo iechyd ychwanegol, gan gynnwys gwybodaeth am driniaethau a chynghor ataliol, ar gael.

Roedd y practis yn cynnig detholiad o gynhyrchion deintyddol i gleifion eu prynu yn y dderbynfa ar y llawr gwaelod. Roedd y rhain yn cynnwys: brwsys dannedd traddodiadol; pastiau dannedd a chegolchion.

Roedd arwyddion 'Dim Smygu' yn cael eu harddangos yn y dderbynfa, ar landin y llawr cyntaf ac roeddent wedi'u cynnwys yn y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar y teledu yn y dderbynfa. Roedd hyn yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg¹.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhoi gwell ddetholiad o wybodaeth hybu iechyd, gan gynnwys taflenni am driniaethau a thafenni cyngor ataliol, i'r cleifion.

Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff pan wnaethant ymweld â'r practis. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod gan y ddwy ddeintyddfa i fyny'r grisiau

¹ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 - Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn manau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

fffenestri gwydr yn y drws fel y gallai'r staff clinigol weld p'un a oedd claf yn cael triniaeth cyn mynd i mewn i'r ystafell. Er nad yw'r cleifion yn aros ar y landin y tu allan i'r deintyddfeydd hyn ar eu pen eu hunain, dylai'r practis ystyried preifatrwydd cleifion a ph'un a ddylid defnyddio'r ffenestri hyn yn y dyfodol.

Nodwyd bod cydberthnasau da rhwng y staff a'r cleifion yn ogystal ag o fewn y tîm bach o staff. Dywedodd y staff wrthym, os oedd angen cael sgwrs breifat â chlaf, y byddent yn mynd i'r swyddfa i fyny'r grisiau er mwyn sicrhau bod cyfrinachedd y claf yn cael ei gynnal. Roedd cynllun ardal y dderbynfa yn golygu ei bod hi'n anodd i gleifion drefnu neu dalu am driniaeth gyda phreifatrwydd rhesymol.

Roedd gan y practis bolisiau priodol ar waith hefyd i sicrhau ei fod yn trin y cleifion ag urddas a pharch, gan gynnwys Polisi Preifatrwydd, Urddas a Chyfrinachedd Cleifion. Gwnaethom nodi nad oedd 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol² yn cael eu harddangos ac nac oeddent ar gael i gleifion ar gais yn y dderbynfa. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis arddangos 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a sicrhau eu bod ar gael yn y dderbynfa.

Ystyried cynllun ardal y dderbynfa i wella cyfrinachedd y cleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth. Gwnaethant hefyd ddweud eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth sydd ar gael a dywedodd pob claf ond un fod y gost bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

² <https://standards.gdc-uk.org/>

Roedd y Daflen Wybodaeth newydd i Gleifion yn gynhwysfawr, yn cynnwys y rheoliadau ac ar gael i gleifion yn y dderbynfa.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat ac ar ran y GIG. Roedd gwybodaeth am gostau ar gyfer triniaethau'r GIG wedi'i harddangos yn glir yn ardal y dderbynfa, gan sicrhau bod gan y cleifion wybodaeth am gost bosibl eu triniaeth GIG. Dywedwyd wrthym y byddai prisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat yn cael eu trafod â chleifion a bod gwybodaeth ar gael gan y deintydd ar gais. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y prisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat hefyd yn cael eu harddangos yn y dderbynfa i gleifion eu gweld.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig arddangos prisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Er bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael, yn Saesneg roedd y wybodaeth hon gan amlaf. Dylid gwneud trefniadau i ddarparu mwy o wybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'³. Yn ogystal, nid oedd y staff yn ymwybodol bod gwasanaeth tebyg i Language Line⁴ ar gael at ddibenion cyfieithu i ieithoedd eraill.

³ Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. <https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

⁴ Asiantaeth gyfieithu yn y DU yw Language Line sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau dehongli, cyfieithu a lleoli.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis wneud trefniadau er mwyn galluogi'r staff i ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu tebyg i Language Line, pe bai angen cyfathrebu â chleifion na allant gyfathrebu yn Saesneg.

Gofal amserol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd manylion sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'u harddangos wrth fynedfa'r practis, ar y daflen wybodaeth i gleifion ac fel rhan o neges peiriant ateb y practis. Gwnaethom hefyd nodi fod y practis yn neilltuo rhai apwyntiadau yn ystod y dydd i ymdrin â thriniaethau deintyddol brys.

Roedd pawb ond un claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon a gall y deintyddion gysylltu â'r dderbynfa drwy ddefnyddio'r rhwydwaith ffôn mewnol os bydd apwyntiad yn rhedeg yn hwyr. Dywedodd y staff wrthym hefyd y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi a chaniatáu iddo aildrefnu apwyntiad, os oedd angen. Fodd bynnag, pan oeddwn yn y dderbynfa, gwnaethom nodi nad oedd y cleifion yn cael gwybod am yr oedi a oedd yn bodoli ar y pryd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Atgoffa staff y dderbynfa i roi gwybod i gleifion yn y ddeintyddfa a'r rhai sy'n cyrraedd am unrhyw oedi o ran amser apwyntiadau.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Lle roedd hynny'n gymwys, cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwnaethom nodi fod opsiynau triniaeth a chynllun triniaeth yn cael eu trafod gyda'r mwyafrif o'r cleifion. Fodd bynnag, nid oedd cydsyniad gwybodus yn cael ei gofnodi bob amser. Er mwyn dangos bod y cleifion yn cael cymorth i wneud dewisiadau gwybodus am eu hopsiynau triniaeth, rhaid trafod a chofnodi ei gydsyniad a'u cynllun triniaeth.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â'r datganiad o ddiben.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cofnodi tystiolaeth o'r holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys cydsyniad gwybodus, yng nghofnodion y cleifion.

Hawliau pobl

Roedd y practis yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Er bod yr unig doiled ar y llawr cyntaf, cafodd hyn ei esbonio yn y daflen wybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o argaeledd y cyfleusterau hyn. Roedd un ddeintyddfa ar y llawr gwaelod a byddai'n cael ei defnyddio ar gyfer cleifion na allant ddefnyddio'r grisiau mewnol i'r deintyddfeydd ar y llawr cyntaf.

Gwelsom fod sawl polisi ar waith i gefnogi'r staff a'r cleifion, gan gynnwys polisi derbyn cleifion, polisi ar gyfer gofal a thriniaeth cleifion nad oes ganddynt alluedd, polisi preifatrwydd cleifion, polisi urddas a chyfrinachedd, a pholisi cyfle cyfartal. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn gallu cyflawni ei ymrwymadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith, ac roedd manylion y weithdrefn hon hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Fodd bynnag, nid oedd y gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn gwneud cwyn neu godi pryder wedi'u harddangos yn yr ardal aros. Hefyd, nid oedd unrhyw gyfeiriad at Weithio i Wella⁵, AGIC na'r Cyngorau Iechyd Cymuned yn unrhyw rai o'r

⁵ [Gweithio i Wella](#)

gweithdrefnau cwyno na'r llythyrau templed. Yn ogystal â hyn, nid oedd y poster "Gweithio i Wella" wedi'i arddangos yn nerbynfa'r practis, ac nid oedd y daflen ar gael yn y dderbynfa.

Dywedodd y practis wrthym nad oes system ffurfiol ar waith i gael barn cleifion. Roedd llyfr sylwadau yn y dderbynfa i gleifion roi eu sylwadau, ac roedd yn cynnwys dau gofnod. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o unrhyw broses i gael adborth gan gleifion neu i adolygu'r adborth a gweithredu arno. Argymhellwn fod y practis yn datblygu holiadur i gleifion er mwyn eu galluogi i roi adborth. Gwnaethom hefyd argymhell bod y practis yn arddangos dadansoddiad o'r adborth yn yr ardal aros / derbynfa, er mwyn dangos i gleifion bod y practis yn gweithredu ar adborth ac yn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Dylai'r broses adborth hon gael ei chynnal o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Arddangos y Poster Gweithio i Wella a sicrhau bod y daflen ar gael yn y dderbynfa.

Adolygu'r Broses Gwyno a'r llythyrau templed er mwyn cynnwys cyfeiriadau at amserlenni a'r asiantaethau perthnasol megis y Bwrdd Iechyd, AGIC a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dylai'r practis fabwysiadu system ffurfiol i gael barn cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o adborth yn cael ei arddangos fel y gall cleifion ei weld.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd rhai systemau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl.

Mae angen rhoi rhaglen o archwiliadau clinigol ac ansawdd ar waith er mwyn gwella'r gwasanaeth a gynigir yn gyson.

Mae angen gwella ansawdd y gwaith o gadw cofnodion o ran nodiadau'r cleifion er mwyn cydymffurfio â chanllawiau proffesiynol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i ddiogelu iechyd a sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion a bod ganddo bolisiâu diogelu priodol ar waith.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn" neu'n "gymharol lân".

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Nid oedd llawer o gyfleusterau ar gael yn y practis i'r staff newid a thynnu eu lifrai a chael egwyl. Roedd un ystafell fach a oedd yn cynnwys oergell, cegin, rhesel gotiau a chyffuriau brys, a oedd hefyd yn cael ei defnyddio fel swyddfa rheolwr y practis. Yn sgil y cyfleusterau newid a storio cyfyngedig, mae angen ystyried hyn os caiff unrhyw newidiadau strwythurol eu gwneud i'r adeilad yn y dyfodol.

Roedd y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael er mwyn gallu eu dihalogi ar ôl eu defnyddio. Roedd eitemau a ddefnyddir unwaith yn unig / tafladwy ar waith lle cynghorir hynny. Er bod yr arwynebau, yr unedau, y droriau a'r lloriau yn lân, byddai'r deintyddfeydd yn cael budd o gael eu glanhau yn drwyadl, gan ddefnyddio hynny fel cyfle i ad-drefnu a chael gwared ar unrhyw eitemau diangen yn y cypyrddau amrywiol. Gellid hefyd gwella'r cypyrddau am fod golwg wedi'u treulio arnynt.

Roedd y broses rheoli risg yn gyfyngedig ac ymddengys ei bod wedi'i llunio yn 2011, heb unrhyw adolygiadau dilynol. Roedd hefyd asesiadau risg ar gyfer meddyginiaethau drwy chwistrell a pholisi asesu risg. Roedd angen llunio proses rheoli risg lawn ar gyfer y practis, ei adolygu'n rheolaidd a'i chyfleu i'r staff.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod yr offer hwnnw wedi'i wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd arwyddion ar eu cyfer, ac roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod unrhyw ymarferion tân wedi'u cynnal ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant diogelwch tân ar gyfer y mwyafrif o'r staff, gan gynnwys y pennaeth tân dynodedig.

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, gan gynnwys Cynllun Mewn Argyfwng a Chynllun Parhad Busnes. Nid oedd y mwyafrif o'r rhain wedi'u dyddio. Fodd bynnag, roedd rhai yn cyfeirio at y perchennog newydd. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y staff wedi gweld y dogfennau hyn ar ffurf taflen wedi'i llofnodi a'i dyddio ac wedi'i hatodi i bob polisi a gweithdrefn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen llunio proses rheoli risg lawn ar gyfer y practis a'i diweddarau bob mis er mwyn cynnwys pob risg bosibl yn y practis.

Dylai pob aelod o'r staff gael hyfforddiant tân, gan gynnwys hyfforddiant ychwanegol ar gyfer pennaeth tân dynodedig.

Dylai ymarfer tân gael ei gynnal bob 6 mis o leiaf a dylid cynnal cofnod.

Sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn cael eu dyddio, eu hadolygu'n flynyddol, eu cyfleu i'r staff a'u llofnodi gan bob aelod o'r staff i gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis broses ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol mewn ystafell ddihalogi benodedig, fel yr argymhellir ym

Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 1-05⁶. Roedd yr ystafell hon yn fach ac nid oedd yn cynnwys uned aerdymheru na gwyntiedydd a oedd yn gweithio. Nid ystyrir bod yr ystafell wedi'i threfnu'n dda iawn ac nid oedd yn llifo'n hawdd. Roedd hefyd risg o anaf, cau bysedd rhwng y man lle mae'r drws yn agor a'r sinc, a gellid mynd i'r afael â hyn drwy newid y drws i ddrws sy'n llithro. Mae angen penodi arweinydd Rheoli Heintiau dynodedig ac mae angen iddo fod yn rhagweithiol yn y maes hwn er mwyn sicrhau, er enghraifft, bod arwyddion Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn briodol, a bod sebon yn yr ystafell bob amser a bod y cyfarpar yn gweithio'n effeithiol.

Roedd polisi Rheoli Heintiau ar waith a oedd yn cwmpasu'r meysydd perthnasol gan gynnwys trefniadau glanhau a hyfforddiant. Ymddengys bod y polisi wedi'i lunio a'i weld gan y staff yn 2017, ond nid oedd wedi cael ei adolygu na'i lofnodi gan y staff bob blwyddyn. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth wneud gwaith dihalogi.

Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith ond nid oedd rhestr wirio ddyddiol ar gyfer y deintyddfeydd ar waith. Rydym yn argymhell y dylai'r practis roi un ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â WHTM 01-05.

Gwelsom fod pob deintydd a nyrs deintyddol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar reoli heintiau. Nid oedd archwiliad rheolaidd o reoli heintiau (sy'n ofynnol bob blwyddyn er mwyn cydymffurfio â WHTM 01-05) wedi'i gwblhau ers 2016, ac mae angen cymryd camau mewn perthynas â hyn.

Roedd gan y practis system i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd contractau ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi'i ddioli a'i osod yn y bagiau / cynwysyddion priodol yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Dylai'r practis archebu pecyn gollyngiadau mercwri ar fyrder a sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant mewn perthynas â defnyddio'r pecyn hwn pan fydd yn cyrraedd.

⁶ www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/WHTM_01-05_Revision_1.pdf

Yr hyn sydd angen ei wella

Ad-drefnu cynllun yr ystafell ddihalogi er mwyn gwella'r llif.

Trwsio'r gwyntiedydd yn yr ystafell ddihalogi.

Penodi nyrs arweiniol dynodedig ar gyfer Rheoli Heintiau.

Gosod arwyddion COSHH priodol yn yr ystafell ddihalogi.

Er mwyn cydymffurfio â WHTM 01-05, dylai'r practis wneud y canlynol:

- Rhoi rhestr wirio ddyddiol ar gyfer y deintyddfeydd ar waith a'i chadw ar ffeiliau er mwyn profi bod y gwiriadau wedi'u cwblhau
- Archwilio'r broses rheoli heintiau o leiaf unwaith bob blwyddyn.

Archebu pecyn gollyngiadau mercwri a sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant mewn perthynas â defnyddio'r pecyn hwn.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis Weithdrefn Delio ag Argyfwng Meddygol / Gweithdrefn Llewylgu ar waith er mwyn delio ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, ond nid oedd polisi dadebru ar waith. Hefyd, yn yr un modd â'r rhan fwyaf o bolisiâu a gweithdrefnau yn y practis, nid oedd y polisi wedi'i ddyddio ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y staff yn ymwybodol o'r polisi hwn.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ar sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR).

Roedd y practis wedi penodi un swyddog cymorth cyntaf ac un aelod o staff sydd â chymhwyster Advanced Trauma Life Support, gan sicrhau bod gan y staff a'r cleifion fynediad priodol i gymorth cyntaf pe byddai rhywun yn cael damwain neu anaf. Roedd pecyn cymorth cyntaf y practis wedi'i stocio'n llawn ac o fewn ei ddyddiadau defnyddio

Ni welsom bolisi rheoli meddyginiaethau ar waith ond gwnaethom nodi copi o gyngor Cymdeithas Ddeintyddol Prydain ar Ragnodi a Rheoli Meddyginiaethau. Dylai'r practis ddefnyddio'r gyngor hwn i ysgrifennu polisi ar reoli meddyginiaethau sy'n cael ei gyfleu i'r staff er mwyn sicrhau y caiff meddyginiaethau eu casglu, eu trin a'u trafod, eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu'n briodol.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd ato'n hawdd pe bai argyfwng meddygol yn y practis. Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod system ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a luniwyd gan y Cyngor Dadebru (DU)⁷. Roedd y cyffuriau a welsom i gyd o fewn eu dyddiadau defnyddio. Mae angen rhoi'r gwiriad wythnosol hwn ar waith.

Dywedwyd wrthym fod yr holl ddigwyddiadau niweidiol yn ymwneud â chyffuriau yn cael eu cofnodi drwy gynllun Cerdyn Melyn⁸ yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA). Cynghorir y practis i gofrestru â Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain⁹ (BNF) ar-lein er mwyn rhoi gwybod am adweithiau niweidiol os bydd angen.

Roedd padiau presgripsiwn fel arfer yn cael eu cadw yn y deintyddfeydd dros nos, ond rydym yn argymhell rhoi trefniadau mwy diogel ar waith.

Dim ond un oergell yn y practis oedd yn cael ei defnyddio mwyn storio rhywfaint o feddyginiaeth (gwynnu dannedd a Botox), castiau dannedd gosod ac eitemau eraill nad ydynt yn feddygol. Rydym yn argymhell bod y practis yn cael gafael ar oergell fach y gellir rheoli ei thymheredd, er mwyn storio'r cyflenwad bach o feddyginiaethau. Yna, mae angen i dymereddau'r oergell gael eu gwirio bob dydd pan fydd y practis ar agor er mwyn sicrhau nad yw'r newid yn y tymheredd y tu hwnt i'r rheini a argymhellir, yn effeithio ar y meddyginiaethau. Mae angen rhestr wirio ddyddiol a pholisi hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Llunio polisiâu sy'n cael eu dyddio, eu hadolygu'n flynyddol a bod y canlynol yn cael eu cyfleu i'r staff:

⁷ <https://www.resus.org.uk/about-us/> Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

⁸ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/> Mae'r Cynllun yn casglu gwybodaeth am ddigwyddiadau neu broblemau a amheuir.

⁹ <https://www.bnf.org/products/bnf-online/>

- Dadebru
- Rheoli Meddyginiaethau.

Gwiriad wythnosol o'r holl gyffuriau a'r cyfarpar ategol (ac unrhyw eitemau eraill sydd wedi'u dyddio) i gael ei gynnal er mwyn sicrhau bod yr holl eitemau o fewn eu dyddiad ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Dylai padiau presgripsiwn gael eu diogelu'n ganolog mewn ystafell dan glo dros nos.

Cael gafael ar oergell fach y gellir rheoli ei thymheredd ar gyfer meddyginiaethau a llunio polisi ar gyfer gwirio tymereddau'r oergell bob dydd.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisi Amddiffyn Pant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol.

Cawsom wybod fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Nid oedd unrhyw dystiolaeth yn y ffeiliau i gefnogi hyn ar gyfer tair nyrs, yn ogystal â hyn, nid oedd staff y dderbynfa a rheolwr y practis wedi cael yr hyfforddiant hwn. Rydym yn argymhell bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant hwn a bod dystiolaeth yn cael ei chadw ar ffeil yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen diweddarau'r polisi diogelu plant ac oedolion er mwyn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y timau diogelu lleol priodol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r hyfforddiant perthnasol o ran diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed a bod y dystiolaeth hon yn cael ei chadw ar ffeil yn y practis.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y deintyddfeydd a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol i sicrhau diogelwch cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cael hyfforddiant sy'n benodol i gyfarpar. Roedd

trefniadau ar waith, wedi'u nodi yn y ffeil radioleg i ymdrin yn brydlon ag unrhyw achos o ddyfais neu system yn methu.

Roedd yr holl offer radiolegol mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-x) yn ddiogel ac ymgwymerwyd ag archwiliadau rheolaidd i sicrhau ansawdd y defnydd o'r cyfarpar. Fodd bynnag, roedd y rheolau lleol yn hen am eu bod yn cyfeirio at Reoliadau 1999. Mae angen diweddarau'r rhain a'u cyfleu i'r staff. Yn ogystal â hyn, mae angen newid y Goruchwylydd Diogelu rhag Ymbelydredd i'r perchennog newydd a'r prif ddeintydd. Dylai'r practis gwblhau Adnodd Gwella Ansawdd Deoniaeth Cymru¹⁰ ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio yn y dyfodol.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfredol yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹¹ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017¹².

Yr hyn sydd angen ei wella

Diweddarau'r polisi ar gyfer Defnyddio Cyfarpar Pelydr-X, ei adolygu'n flynyddol a'i gyfleu i bob aelod o'r staff.

Dylai'r practis gwblhau Adnodd Gwella Ansawdd Deoniaeth Cymru ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd Datganiad o Ddiben y practis yn nodi'r trefniadau priodol ar gyfer derbyn, asesu, diagnosiso a thrin cleifion. Roedd gan y practis hefyd bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i ategu'r swyddogaethau hyn.

¹⁰ <https://dental.walesdeanery.org/cy/practice-improvement>

¹¹ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

¹² http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

Nododd y staff eu bod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a bod tystiolaeth bod y canllawiau proffesiynol, rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn pan gaiff triniaeth ei darparu.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Fel y nodwyd uchod, mae'r prif ddeintydd a rheolwr y practis wedi prynu'r practis yn ddiweddar. Yn ogystal â'r argymhellion eraill a wnaed yn yr adroddiad hwn, mae angen iddynt roi system ar waith er mwyn cynnal adolygiadau cymheiriaid ac archwiliadau clinigol (gan gynnwys cadw cofnodion a radiograffiau) er mwyn sicrhau eu bod yn gwella eu safonau yn gyson ac yn dilyn y canllawiau diweddaraf.

Efallai yr hoffai'r practis ystyried gwneud cais am adnodd datblygu practisau 'Maturity Matrix Dentistry' Deoniaeth Cymru. Mae'r 'Adnodd Matrics Aeddfedrwydd' yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut maent yn gweithio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig roi rhaglen o archwiliadau ac adolygiadau cymheiriaid ar waith sy'n berthnasol ac yn diwallu anghenion y practis.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu ar gyfer creu, rheoli, trin a storio cofnodion a gwybodaeth arall. Mae angen i'r rhain gael eu dyddio, eu hadolygu'n flynyddol a chynnwys tystiolaeth eu bod yn cael eu cyfleu i'r staff. Mae hwn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â'r Polisi Diogelu Data sy'n cyfeirio at y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Yn sgil pwysigrwydd cynyddol y maes hwn, rydym yn argymhell bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth sy'n cynnwys GDPR.

Roedd gan y practis gofnodion electronig a gwelsom fod y rhain yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn o'r ffeiliau electronig yn cael eu creu'n rheolaidd. Yn ystod taith o gwmpas y practis, gwnaethom sylwi fod cofnodion papur etifeddol yn cael eu cadw mewn garej dan glo mewn cabinetau ffeiliau heb eu cloi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Pob aelod o'r staff i ymgymryd â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth sy'n cynnwys GDPR.

Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y broses o gadw cofnodion. Mae rhai meysydd lle mae angen gwella'r cofnodion mewn perthynas â:

- Cofnodi cydsyniad dilys
- Cofnodion symiau o alcohol a gaiff ei yfed ac ysmegu
- Hanesion y Cleifion
- Sgrinio ar gyfer canser
- Asesu cleifion o ran eu risg o bydredd dannedd (dannedd neu asgwrn yn pydru a malu), clefyd periodontol (haint cronig yw periodontitis sy'n effeithio ar y deintgig a'r esgyrn sy'n cefnogi'r dannedd)¹³ a chanser
- Roedd anghysondebau o ran cofnodi Archwiliadau Periodontol Sylfaenol¹⁴ (BPE).

Byddai'r practis yn cael budd o ddefnyddio Adnoddau Gwella Ansawdd Deoniaeth Cymru ac Adnodd Gwella'r Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol (FGDP) i wella'r gwaith o gadw cofnodion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn cwblhau cofnodion deintyddol cleifion yn llawn yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

¹³ <https://www.nice.org.uk/Guidance/CG19>

¹⁴ Mae archwiliad periodontol yn archwiliad clinigol o'r periodontiwm (deintgig).

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Prynodd y perchenogion presennol y practis yn ddiweddar ac ar ôl siarad â nhw, mae'n amlwg eu bod yn awyddus i ddatblygu a gwella'r practis. Yn ein barn ni, mae'r amser y mae'r perchenogion presennol yn gallu treulio yn y practis yn cael effaith ar reolaeth y practis.

Mae nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, ond nid oeddent wedi'u dyddio, na'u rhifo o ran fersiwn, nac yn cynnwys dyddiad adolygu ac, yn y mwyafrif o achosion, nid oeddent yn cynnwys llofnod staff i ddangos eu bod wedi cael eu darllen a'u deall.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae cyd berchenogion y practis wedi cyflwyno ceisiadau i AGIC, sydd yn yr arfaeth, i gofrestru'r Unigolyn Cyfrifol¹⁵ (prif ddeintydd) newydd a'r Rheolwr Cofrestredig¹⁶ (rheolwr y practis). Mae'r ddau yn awyddus i sicrhau bod y practis yn parhau i wella ei safonau ac maent yn frwd dros y gofal y dylent ei ddarparu i'r gymuned. Drwy drafod â'r rheolwyr cofrestredig, gwnaethom nodi fod ganddynt syniadau am ddatblygu'r practis ymhellach.

¹⁵ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017)

¹⁶ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

Ar adeg yr adolygiad, roedd rheolwr y practis ond yn gallu bod yn bresennol yn y practis am tua dwy awr y dydd ac roedd y prif ddeintydd ond yn gallu bod yn bresennol am hyd at ddeuddydd yr wythnos. O ganlyniad, rydym o'r farn nad ydynt yn gallu arfer arweinyddiaeth dda a darparu llinellau atebolrwydd clir.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol â'r prif ddeintydd ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu rolau. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers peth amser, ac roedd ganddynt berthynas dda â'i gilydd.

Gwelsom fod y staff yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd system rheoli fersiynau ar waith mewn perthynas â'r polisiâu a'r gweithdrefnau ac nad oeddent yn cynnwys dyddiad adolygu ac, yn y mwyafrif o achosion, nad oeddent yn cynnwys llofnod staff i ddangos eu bod wedi cael eu darllen a'u deall. Nid oeddwn chwaith yn gallu nodi pryd y cawsant eu hysgrifennu, roedd rhai yn amlwg wedi'u newid i gynnwys prif ddeintydd newydd, ond roedd rhai llofnodion yn dyddio'r dogfennau i 2009. Gwnaethom argymhell fod y polisiâu a'r gweithdrefnau yn cael eu hadolygu, eu dyddio, eu teilwra i'r ymarfer presennol a sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r rhain.

Gwelsom gopi o'r Datganiad o Ddiben diwygiedig a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar ei gyfer. Roedd tystysgrif cofrestru AGIC a oedd yn cael ei harddangos yn berthnasol i'r perchenogion a'r unigolion cofrestredig blaenorol, tra bod y practis yn aros i'r cofrestriad gael ei gwblhau. Roedd gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyffredol hefyd.

Roedd y practis yn ymwybodol o'r gofyniad i anfon hysbysiadau o'r canlynol (i AGIC); marwolaethau/anafiadau difrifol i gleifion; absenoldeb y person cofrestredig dros dro a newidiadau penodol, e.e. newid i'r rheolwr cofrestredig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Adolygu'r holl bolisiâu a gweithdrefnau yn y practis, er mwyn sicrhau eu bod yn gyffredol, yn berthnasol, wedi'u dyddio, yn cynnwys dyddiad adolygu, ac yn cael eu cyfleu i bob aelod o'r staff. Yna, dylai'r staff eu llofnodi'n flynyddol a

phryd y caiff newidiadau eu gwneud er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd gan y staff gynlluniau datblygu personol ond ni welsom fod unrhyw broses arfarnu ar waith ar gyfer y staff, er mwyn sicrhau y caiff eu perfformiad ei adolygu a'u bod yn datblygu ymhellach yn eu rolau. Roedd gan bob aelod o'r staff gontractau cyflogaeth. Rydym yn argymhell bod y practis yn cyflwyno polisi a dechrau proses o gynnal arfarniadau staff.

Ochr yn ochr â'r system arfarnu, byddai dirprwyo tasgau penodol o fewn y practis i unigolion penodol yn eu galluogi i gymryd perchenogaeth o dasgau /gwaith papur hanfodol a sicrhau ei bod yn gyfredol. Byddai hyn hefyd yn cefnogi egwyddorion y practis yn y gwaith o redeg y practis yn gyffredinol. Gallai'r tasgau gynnwys archwilio, croes-heintio, diogelu, radioleg a chwynion. Gallai'r unigolion hyn fod yn nyrsys, deintyddion cyswllt neu staff gweinyddol, yn dibynnu ar yr hyn sy'n gweddu gorau i'w diddordebau a'u sgiliau.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Fodd bynnag, fel y trafodwyd uchod, nid oedd tystysgrifau hyfforddiant ar gyfer meysydd hyfforddiant gorfodol ar gael i'w harchwilio ac felly ni allem fod yn sicr fod yr holl hyfforddiant perthnasol wedi'i gwblhau. Rhaid i'r practis gadw tystiolaeth o gwblhau hyfforddiant ac os na ellir dod o hyd i'r tystysgrifau coll, bydd angen ymgymryd â'r hyfforddiant eto. Byddem yn argymhell bod matrices hyfforddiant yn cael ei roi ar waith er mwyn helpu'r gwaith o reoli'r hyfforddiant.

Cynhaliwyd dau gyfarfod staff ers i'r perchenogion newydd gymryd cyfrifoldeb am y practis, ac roedd cofnodion y cyfarfodydd hyn yn fyr. Dylid cynnal y rhain yn amlach, bob mis yn ddelfrydol, a chadw cofnodion llawn ohonynt a dylai'r staff na allant fod yn bresennol glywed y diweddaraf gan y Rheolwr Cofrestredig. Mae angen hefyd i'r holl staff lofnodi'r cofnodion hyn i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall a'u bod yn cytuno arnynt.

Mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng

Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal.

Roedd rheolwr y practis yn ymgymryd â hyfforddiant ar-lein fel rheolwr practis ar hyn o bryd. Cynghorwyd rheolwr y practis i gysylltu ag arweinydd dynodedig ei Fwrdd Iechyd i nodi pa hyfforddiant neu ryngweithio wyneb yn wyneb sydd ar gael i ddatblygu eu gwybodaeth.

Roedd polisïau ar waith yn ymwneud â recriwtio a sefydlu staff, gan gynnwys staff asiantaeth. Roedd y mwyafrif o'r staff wedi gweithio yno ers sawl blwyddyn. Fodd bynnag, ni ofynnwyd am ddau eirda'r aelod mwyafrif newydd o'r staff a gyflogwyd eleni, dim ond un geirda llafar a gafwyd. Rhaid cael dau eirda ar gyfer pob aelod o'r staff er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau a sicrhau bod y gwiriadau priodol y mae'n rhaid i'r staff ymgymryd â nhw i weithio yn cael eu cwblhau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cyflwyno matrices hyfforddiant er mwyn monitro'r gwaith o gwblhau hyfforddiant gorfodol a sicrhau bod tystiolaeth o gwblhau hyfforddiant yn cael ei chadw yn ffeiliau'r staff.

Cyflwyno polisi ar arfarniadau staff a dechrau ar y broses ar gyfer pob aelod o'r staff.

Defnyddio'r broses arfarnu i nodi a phenodi arweinwyr ymhlith staff y practis, ac i gymryd cyfrifoldeb am feysydd penodol.

Dylid cynnal cyfarfodydd yn amlach, bob mis yn ddelfrydol, a chadw cofnodion llawn ohonynt a dylai'r staff na allant fod yn bresennol glywed y diweddaraf gan y Rheolwr Cofrestredig. Mae angen hefyd i'r holl staff lofnodi'r cofnodion hyn i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall a'u bod yn cytuno arnynt.

Cael dau eirda ysgrifenedig ar gyfer pob aelod newydd o'r staff.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#), Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Insert name

Dyddiad arolygu: Insert date

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Llanedeyrn

Dyddiad arolygu: 23 Mai 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhoi gwell ddetholiad o wybodaeth hybu iechyd, gan gynnwys taflenni am driniaethau a thafleini cyngor ataliol, i'r cleifion.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae detholiad o bosteri hybu iechyd deintyddol ac iechyd y geg wedi cael eu hargraffu a'u harddangos yn y dderbynfa.	Al-Rikabi Shona Morse	Cwblhawyd
Rhaid i'r practis arddangos 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a sicrhau eu bod ar gael yn y dderbynfa. Ystyried cynllun ardal y dderbynfa i wella cyfrinachedd y clefion.	4.1 Gofal ag Urddas; PDR adran (a) 15 a 19	Mae 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol bellach wedi'u harddangos yn y dderbynfa. Rydym yn ystyried newid lleoliad y ddesg i wella cyfrinachedd y clefion.	Al-Rikabi Al-Rikabi	Cwblhawyd 4 / 12
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig arddangos prisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat.	2.4 Gwybodaeth i Gleifion, PDR 13	Mae rhai prisiau triniaethau preifat wedi'u hargraffu a'u harddangos yn y dderbynfa	Al-Rikabi Nadia Khalil Shona Morse	14 Awst 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		eisoes, a bydd y rhestr lawn yn cael ei harddangos yn fuan.		
Dylai'r practis wneud trefniadau er mwyn galluogi'r staff i ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu tebyg i Language Line, pe bai angen cyfathrebu â chleifion na allant gyfathrebu yn Saesneg.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Bydd trefniadau Language Line yn cael eu rhoi ar waith.	Nadia Khalil Shona Morse	14 Medi 19
Atgoffa staff y dderbynfa i roi gwybod i gleifion yn y deintyddfa a'r rhai sy'n cyrraedd am unrhyw oedi o ran gweld deintydd.	5.1 Mynediad amserol	Mae'r dderbynfa bellach yn hysbysu'r cleifion yn rheolaidd am oedi o ran gweld deintydd, ac mae deintyddion a nyrsys yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r dderbynfa.	Shona Morse a Pat Grew a phob aelod o'r Staff	Cwblhawyd
Cofnodi tystiolaeth o'r holl wybodaeth berthnasol gyda chleifion, gan gynnwys cydsyniad gwybodus, yng nghofnodion y cleifion.	6.1 Cynllunio Gofal i hybu annibyniaeth; PDR a 13 (1)	Rhodddwyd gwybod i'r deintyddion bod yn rhaid iddynt gofnodi'r holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys cydsyniadau, yng nghofnodion electronig y cleifion.	Pob deintydd	Cwblhawyd
Arddangos y Poster Gweithio i Wella a sicrhau bod y daflen ar gael yn y dderbynfa. Adolygu'r Broses Gwyno a'r llythyrau templed er mwyn cynnwys cyfeiriadau at amserlenni a'r asiantaethau perthnasol megis y Bwrdd Iechyd,	6.3 Gwrando ar adborth a dysgu oddi wrtho, PDR, a 16 (2b) a 21	Mae hyn bellach wedi'i arddangos. Mae'r broses a'r llythyr cwyno wedi cael eu hadolygu er mwyn cynnwys y newidiadau gofynnol.	Al-Rikabi Al-Rikabi Nadia Khalil	Cwblhawyd Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>AGIC a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.</p> <p>Dylai'r practis fabwysiadu system ffurfiol i gael barn cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o adborth yn cael ei arddangos fel y gall cleifion ei weld.</p>		<p>Mae blwch adborth y cleifion wedi'i leoli yn y practis bellach.</p>	<p>Al-Rikabi</p>	<p>Cwblhawyd</p>
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Mae angen llunio proses rheoli risg lawn ar gyfer y practis a'i diweddarau bob mis er mwyn cynnwys pob risg bosibl yn y practis.</p> <p>Dylai pob aelod o'r staff gael hyfforddiant tân, gan gynnwys hyfforddiant ychwanegol ar gyfer pennaeth tân dynodedig.</p> <p>Dylai ymarfer tân gael ei gynnal bob 6 mis o leiaf a dylid cynnal cofnod.</p> <p>Sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn cael eu dyddio, eu hadolygu'n flynyddol, eu cyfleu i'r staff a'u llofnodi gan bob aelod o'r staff i gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; PDR a 8 ac 17</p>	<p>Caiff prosesau rheoli risg y practis eu sefydlu.</p> <p>Caiff hyfforddiant tân ei drefnu.</p> <p>Caiff ymarfer tân ei drefnu.</p> <p>Mae'r staff wrthi'n dyddio a darllen y polisiau a'r gweithdrefnau ar hyn o bryd.</p>	<p>Al-Rikabi</p> <p>Nadia Khalil</p> <p>Mareih Hashemi Nadia Khalil</p> <p>Al-Rikabi Nadia Khalil</p>	<p>14 Hydref 19</p> <p>14 Hydref 19</p> <p>14 Medi 19</p> <p>14 Medi 19</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Ad-drefnu cynllun yr ystafell ddihalogi er mwyn gwella'r llif.</p> <p>Trwsio'r gwyntiedydd yn yr ystafell ddihalogi.</p> <p>Penodi nyrs arweiniol dynodedig ar gyfer Rheoli Heintiau.</p> <p>Gosod arwyddion COSHH priodol yn yr ystafell ddihalogi.</p> <p>Er mwyn cydymffurfio â WHTM 01-05, dylai'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhoi rhestr wirio ddyddiol ar gyfer y deintyddfeydd ar waith a'i chadw ar ffeiliau er mwyn profi bod y gwiriadau wedi'u cwblhau Archwilio'r broses rheoli heintiau o leiaf unwaith bob blwyddyn. <p>Archebu pecyn gollyngiadau mercwri a sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant mewn perthynas â defnyddio'r pecyn hwn.</p>	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, PDR 13</p>	<p>Bydd y sinc yn cael ei symud i ffwrdd o'r drws, mae'r ystafell wedi cael ei hail-baentio â phaent gwrthlwydni.</p> <p>Mae'r gwyntiedydd bellach yn gweithio'n iawn.</p> <p>Penodwyd nyrs rheoli heintiau.</p> <p>Arwyddion COSHH bellach yn cael eu harddangos.</p> <p>Rhestr wirio yn cael ei llunio.</p> <p>Cytunwyd ar broses archwilio rheoli heintiau blynyddol a gynlluniwyd.</p> <p>Mae pecyn gollyngiadau mercwri bellach ar gael yn y practis.</p>	<p>Al-Rikabi</p> <p>Morvey Jones</p> <p>Nadia Khalil</p> <p>Morvey Jones</p> <p>Nadia Khalil</p> <p>Nadia Khalil</p> <p>Al-Rikabi</p> <p>Al-Rikabi</p>	<p>14 Hydref 19</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>14 Awst 2019</p> <p>14 Medi 19</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Llunio polisïau sy'n cael eu dyddio, eu hadolygu'n flynyddol a bod y canlynol yn cael eu cyfleu i'r staff:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dadebru • Rheoli Meddyginiaethau. <p>Gwiriad wythnosol o'r holl gyffuriau a'r cyfarpar ategol (ac unrhyw eitemau eraill sydd wedi'u dyddio) i gael ei gynnal er mwyn sicrhau bod yr holl eitemau o fewn eu dyddiad ac yn ddiogel i'w defnyddio.</p> <p>Dylai padiau presgripsiwn gael eu diogelu'n ganolog mewn ystafell dan glo dros nos.</p> <p>Cael gafael ar oergell fach y gellir rheoli ei thymheredd ar gyfer meddyginiaethau a llunio polisi ar gyfer gwirio tymhereddau'r oergell bob dydd.</p>	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau; PDR a 8I ac 13 (4)</p>	<p>Mae pob un o'r polisïau wrthi'n cael eu darllen a'u llofnodi gan y staff. Caiff y rhain eu hadolygu a'i diweddarau'n flynyddol.</p> <p>Mae cyffuriau brys yn cael eu gwirio bob wythnos er mwyn sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad defnyddio.</p> <p>Mae padiau presgripsiwn bellach yn cael eu cadw mewn dror y gellid ei gau yn y swyddfa dan glo.</p> <p>Cafodd dau fesurydd tymheredd eu gosod yn y ddwy oergell am fod oergell newydd wedi'i phrynu yn ddiweddar ar gyfer meddyginiaethau yn unig.</p>	<p>Al-Rikabi Nadia Khalil</p> <p>Nadia Khalil Marieh Hashemi</p> <p>Al-Rikabi Pob Deintydd</p> <p>Al-Rikabi</p>	<p>14 Medi 19</p> <p>Eisoes ar waith</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae angen diweddarau'r polisi diogelu plant ac oedolion er mwyn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y timau diogelu lleol priodol.</p>	<p>2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion</p>	<p>Mae hyn wedi'i ddiweddarau i gynnwys y newidiadau gofynnol</p>	<p>Al-Rikabi Nadia Khalil</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r hyfforddiant perthnasol o ran diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed a bod y dystiolaeth hon yn cael ei chadw ar ffeil yn y practis.	sy'n wynebu risg; PDR 14	Mae'r staff wedi cael cyfarwyddyd i gwblhau'r cyrsiau hynny, anfonwyd dolen ar-lein am ddim ar gyfer y cwrs i bawb.	Al-Rikabi Nadia Khalil Pob aelod o staff	14 Awst 2019
Diweddarau'r polisi ar gyfer Defnyddio Cyfarpar Pelydr-X, ei adolygu'n flynyddol a'i gyfleu i bob aelod o'r staff. Dylai'r practis gwblhau Adnodd Gwella Ansawdd Deoniaeth Cymru ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio.	2.9 Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig; PDR 8d ac 13	Caiff y polisi hwn ei ddiweddarau yn ôl yr angen. Argraffwyd y ddogfen adnodd a chaiff ei chwblhau.	Al-Rikabi Al-Rikabi Nadia Khalil	14 Medi 19 14 Hydref 19
Dylai'r darparwr cofrestredig roi rhaglen o archwiliadau ac adolygiadau cymheiriaid ar waith sy'n berthnasol ac yn diwallu anghenion y practis.	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi; PDR a 16	Caiff rhaglen Archwilio ei rhoi ar waith, gan ddechrau gydag archwiliad rhagnodi gwrthficrobaidd.	Al-Rikabi	14 Hydref 19
Pob aelod o'r staff i ymgymryd â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth sy'n cynnwys GDPR.	3.4 Technoleg Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu	Mae'r staff wedi cael cyfarwyddyd i gwblhau'r cyrsiau hynny, anfonwyd dolen ar-lein am ddim ar gyfer y cwrs i bawb.	Al-Rikabi	14 Medi 19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn cwblhau cofnodion deintyddol cleifion yn llawn yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	3.5 Cadw cofnodion; PDR a 20	Cafodd deintyddion gyfarwyddyd yn ôl yr angen.	Al-Rikabi	Cwblhawyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Adolygu'r holl bolisiâu a gweithdrefnau yn y practis, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol, yn berthnasol, wedi'u dyddio, yn cynnwys dyddiad adolygu, ac yn cael eu cyfleu i bob aelod o'r staff. Yna, dylai'r staff eu llofnodi'n flynyddol a phryd y caiff newidiadau eu gwneud er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; PDR Atodlen 3	Mae pob un o'r polisiâu wrthi'n cael eu darllen a'u llofnodi gan y staff. Caiff y rhain eu hadolygu a'i diweddar'u flynyddol.	Al-Rikabi Nadia Khalil	14 Medi 19
Cyflwyno matrices hyfforddiant er mwyn monitro'r gwaith o gwblhau hyfforddiant gorfodol a sicrhau bod tystiolaeth o gwblhau hyfforddiant yn cael ei chadw yn ffeiliau'r staff. Cyflwyno polisi ar arfarniadau staff a dechrau ar y broses ar gyfer pob aelod o'r staff.	7.1 Y Gweithlu; PDR 8h	Mae Matrics Hyfforddiant wedi'i lunio a chaiff hyfforddiant y staff ei gofnodi. Pennwyd dyddiad adolygu. Cytunwyd ar broses arfarnu flynyddol gyda'r deintyddion, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer mis Ionawr bob blwyddyn.	Al-Rikabi Al-Rikabi	Cwblhawyd 14 Ion19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Defnyddio'r broses arfarnu i nodi a phenodi arweinwyr ymhlith staff y practis, ac i gymryd cyfrifoldeb am feysydd penodol.</p> <p>Dylid cynnal cyfarfodydd yn amlach, bob mis yn ddelfrydol, a chadw cofnodion llawn ohonynt a dylai'r staff na allant fod yn bresennol glywed y diweddaraf gan y Rheolwr Cofrestredig. Mae angen hefyd i'r holl staff lofnodi'r cofnodion hyn i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall a'u bod yn cytuno arnynt.</p> <p>Cael dau eirida ysgrifenedig ar gyfer pob aelod newydd o'r staff</p>		<p>Cynhelir cyfarfodydd practis bob mis ar ôl i berchennog y practis (AAR) newid ei ymrwymiad a dechrau gweithio 3 diwrnod yr wythnos yn y practis o fis Hydref 2019. Caiff y cofnodion eu llofnodi.</p> <p>Mae hyn bellach wedi'i sicrhau ar gyfer y cyflogai newydd. Wedi'i sefydlu fel rheol.</p>	<p>Al-Rikabi</p> <p>Al-Rikabi</p>	<p>14 Hydref 19</p> <p>Cwblhawyd</p>

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): ALI AL-RIKABI

Teitl swydd: Perchennog y Practis a Phrif Ddeintydd

Dyddiad: 14 Gorffennaf 2019